

# Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



Cardiff Third Sector Council  
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

## 4. Gwirfoddolwyr

### 4.25 Iaith gwirfoddoli - termau cyffredin

Mae'r iaith rydym yn ei defnyddio ynglŷn â gwirfoddoli yn gallu peri dryswch. Weithiau defnyddir gwahanol dermau yn gyfnewidiol. Mae gan rai termau ystyr penodol iawn, er enghraifft, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol. Dyma ymgais i egluro rhai termau sy'n berthnasol i wirfoddoli. Fe'u rhestrir yn nhrefn yr wyddor.

#### **Bancio Amser**

Mae bancio amser yn golygu rhoi amser i weithgaredd o fewn y gymuned, yn gyfnewid am 'gredydau' y gellir eu defnyddio i gael buddion neu 'wobrau' amrywiol. Mae pob cynllun bancio amser yn diffinio'r gwobrau hyn, gan ddynodi gwerth credyd i bob un.

Mae cynlluniau bancio amser yn gofyn am gydlynu gweinyddol, gan gynnwys cadw cofnodion credydau unigol a gwaith hyrwyddo er mwyn cynnwys aelodau a phartneriaid newydd. Mae rhai cynlluniau yn cael cyllid allanol.

Y tu hwnt i hyn, mae cynlluniau bancio amser yn amrywio'n fawr o ran y math o weithgaredd y gellir ei wneud i ennill credydau. Mae banciau amser yn dueddol o gyfeirio at 'aelodau' yn hytrach na 'gwirfoddolwyr'.

Efallai fod gweithgaredd bancio amser mewn rhai achosion yn edrych yn debyg i weithgaredd gwirfoddoli, ond gan fod credydau yn cael eu 'hennill' am amser 'a roddir' nid yw'n cyd-fynd yn rhwydd â'r diffiniad o wirfoddoli a dderbynnir sy'n crybwyll gweithgaredd heb unrhyw elw ariannol.

#### **Cyfle gwirfoddoli**

Lleoedd gwag penodol i wirfoddolwyr yw cyfleoedd gwirfoddoli, fel y rheini a hysbysebir ar y wefan cyfleoedd gwirfoddoli [www.gwirfoddolicymru.net](http://www.gwirfoddolicymru.net). Fel arfer ceir rôl-ddisgrifiad yn egluro'r disgwyliadau, er yn aml mae hyn yn agored i'w drafod a gellir ei addasu i weddu i ofynion ac amgylchiadau unigol.

**Cyfranogiad Cymunedol:** Mae'r term hwn yn cyfeirio at elfen benodol o Fagloriaeth Cymru. Mae disgyblion 14-19 mlwydd oed yn cwblhau lleoliad 15-30 awr sy'n anelu at fod o fudd i'r gymuned er mwyn ennill credyd ar gyfer eu cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Fe'i gelwir hefyd yn Her Gymunedol.

#### **Gwaith di-dâl**

Mae Rochester (2006) yn darlunio gwirfoddoli fel tri chylch sy'n gorgyffwrdd gan eu labelu 'gwaith neu wasanaeth di-dâl', 'gweithredaeth' a 'hamdden ddifrifol'. Yn y model hwn, byddai'r rhan fwyaf o wirfoddoli mewn mudiadau yn cael ei ystyried yn 'waith di-dâl'.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau, fodd bynnag, yn ystyried gwaith di-dâl yn weithgaredd y gallech ddisgwyl tâl amdano, ond nad ydych yn cael tâl. Mae llyfryn yr Adran ar wirfoddoli (2010) yn nodi:

'Nid yw dewis peidio â chael eich talu yr un peth â gwirfoddoli. Os ydych yn gwneud rhywbeth y byddai rhywun arall fel arfer yn cael ei dalu amdano (er enghraifft, os ydych yn gweithio mewn busnes neu i aelod o'ch teulu pan fyddent fel arfer yn talu rhywun arall i wneud y gwaith), byddwn yn cyfrif hwn fel gwaith di-dâl ac nid fel gwirfoddoli.

Os ydych yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Budd-dal Tai neu Fudd-dal y Dreth Gyngor, efallai y byddwn yn penderfynu mai 'enillion tybiannol' fyddai'r hyn y byddech wedi ei gael. Os ydym yn penderfynu hyn, gall effeithio ar eich budd-daliadau a'ch credydau treth.

Byddwn yn penderfynu drwy ystyried y canlynol:

- a fyddai rhywun fel arfer yn cael ei dalu i wneud yr un math o waith
- a yw eich gwaith yn helpu'r gymdeithas neu eich cymuned mewn unrhyw ffordd
- a ydych yn gweithio i elusen neu grŵp tebyg.'

Mae angen gofal i osgoi camddehongli posib os defnyddir y term 'gwaith di-dâl'.

### **Gwaith gwirfoddol**

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyfeirio at waith gwirfoddol fel hyn: 'Ystyrir eich bod yn gwneud gwaith gwirfoddol os na allwch ond cael rhai buddion cyfyngedig (ee treuliau teithio neu ginio rhesymol) ac rydych yn gweithio ar gyfer:

- elusen
- mudiad gwirfoddol neu gorff codi arian cysylltiedig
- corff statudol'

O ystyried yr angen i wahaniaethu'n glir, mewn llawer o amgylchiadau, beth yw 'gwirfoddoli' a beth yw 'gwaith', nid yw'r term hwn at ei gilydd yn un defnyddiol. Dylai 'gwirfoddoli' neu 'weithgaredd gwirfoddoli' wneud y tro. Gellid, fodd bynnag, ei ddefnyddio mewn perthynas â ['gweithiwr gwirfoddol'](#) (gweler isod).

**Gwasanaeth Cymunedol:** Gweithgaredd a wneir gan unigolyn neu grŵp er lles y gymuned. Gall fod yn wirfoddol – ond nid yw bob tro. Efallai fod rhaid i bobl wneud gwasanaeth cymunedol yn rhan o ddedfryd am gyflawni trosedd neu gall fod yn rhan o gwricwlwm ysgol. Mewn amgylchiadau eraill efallai fod pobl wedi dewis gwneud gwasanaeth cymunedol, er enghraifft, drwy ymuno â grŵp neu ymgyrch.

Mae gwasanaeth cymunedol yn derm eang a all olygu gwahanol bethau mewn gwahanol gyd-destunau. Gweler hefyd [Lleoliad Gwaith Cymunedol](#) a [Chyfranogiad Cymunedol](#).

### **Gweithiwr gwirfoddol:**

Term technegol yw hwn sy'n caniatáu eithriad o dan Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998.

Efallai y bydd gwirfoddolwyr llawn amser, fel y rheini sy'n ymgymryd â gwirfoddoli preswyl, yn y categori hwn. Golyga natur y trefniadau eu bod yn gweithio o dan gontract (ysgrifenedig neu ymhlyg), ac yn aml mae disgwyl iddynt gyflawni oriau a dyletswyddau penodedig.

Yn ôl arweiniad y llywodraeth ar yr isafswm cyflog:

'Mae gweithwyr gwirfoddol yn eich mudiad wedi'u heithrio o'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol os yw'r ddau beth canlynol yn wir:

- o rydych yn elusen, yn fudiad gwirfoddol, yn gorff codi arian cysylltiedig neu'n gorff statudol
- o nid ydych yn rhoi dim taliadau ariannol iddynt a dim ond treuliau a buddion cyfyngedig a phenodol'

Efallai fod gweithwyr gwirfoddol at ei gilydd yn eu hystyried eu hunain yn wirfoddolwyr, ond yn dechnegol maent yn 'weithwyr' yn ôl y gyfraith. Mae ganddynt rai hawliau nad oes gan wirfoddolwyr (er ddim cynifer a roddir i gyflogeion). Er enghraifft, maent wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau Amser Gwaith (1998), ac yn y darpariaethau gweithwyr mewn deddfwriaeth wrth-wahaniaethu.

### **Gweithredu Cymdeithasol**

Dyma ddiffiniad o weithredu cymdeithasol a gytunwyd er diben ymchwil yn ymwneud â phobl ifanc (Ockenden a Stuart 2014):

(Pobl Ifanc) yn cymryd camau ymarferol i wasanaethu eraill er mwyn creu newid cymdeithasol positif sydd o fudd i'r gymuned ehangach yn ogystal â'r person (ifanc) ei hun.

Mae'n fath o wirfoddoli, gyda phwyslais ar newid cymdeithasol.

### **Gwirfoddoli (wrth dderbyn budd-daliadau lles)**

Gall unigolion sy'n derbyn budd-daliadau lles ymgymryd â gwirfoddoli trwy ddewis, cyn belled â bod eu hyfforddwr gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith yn cael gwybod ac nad yw'r gweithgaredd hwn yn peryglu unrhyw rai o'r rhagamodau sy'n gysylltiedig â'r budd-dal a geir – er enghraifft, gweithgareddau chwilio am waith y cytunwyd arnynt yn rhan o Gontract Hawlydd.

Mewn rhai achosion, ac os yw unigolyn yn dewis hyn, gallai gweithgaredd gwirfoddoli gael ei gynnwys yn rhan o Gontract Hawlydd. Os felly, cydnabyddir bod gweithgaredd gwirfoddoli penodol yn chwarae rhan werthfawr i ddatblygu cyflogadwyedd yr unigolyn; gallai methu ag ymgymryd â gwirfoddoli fel y cytunwyd yn y contract hwn arwain at sancsiynau ar ei fudd-dal.

### **Gwirfoddolwr**

Gwirfoddolwr yw rhywun sy'n rhoi amser ac egni er lles cymdeithas a'r gymuned,\* a gall fodoli mewn sawl ffordd. Ymgymerir ag ef yn rhydd a thrwy ddewis, heb ystyried elw ariannol.

Dyma'r diffiniad a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru, fel, er enghraifft, yng Nghynllun y Trydydd Sector (Ionawr 2014)

Nid yw gwirfoddolwr mewn sefyllfa contractiol (ysgrifenedig neu ymhlyg). Gallant yn gyfreithlon gael eu had-dalu am fân dreuliau.

\* efallai y byddem yn ychwanegu 'neu'r amgylchedd' at hyn.

### **Interniaeth**

Does dim diffiniad cyfreithiol o interniaeth. Cyfle strwythuredig â chyfyngiad amser a dyddiad dechrau a gorffen diffiniedig yw interniaeth. Nod yr Interniaeth yw datblygu sgiliau a gwybodaeth yr unigolyn wrth ddarparu profiad ystyrlon i wella cyflogadwyedd.

Gall interniaeth fod â thâl, neu'n ddi-dâl. Mae **interniaid â thâl** yn gymwys am yr isafswm cyflog a deddfwriaeth cyflogaeth. Ystyrir **interniaid di-dâl** yn Interniaid gwirfoddol os:

- Ydynt mewn mudiad yn y sector cyhoeddus neu'r Trydydd Sector
- Oes trefniadau hyblyg yn eu lle, gan ddiffinio'r gweithgaredd mewn disgrifiad o'r Interniaeth ond heb ymrwymadau dan contract
- Nad oes tâl na budd ariannol heblaw am dreuliau dilys
- Oes fframwaith cymorth yn ei le sy'n benodol i'r intern gwirfoddol, gan gynnwys er enghraifft, polisi Interniaethau, strwythurau cefnogi a goruchwyllo a gweithdrefnau i ddelio gyda phroblemau. Ystyrir interniaid gwirfoddol at ei gilydd yn [wirfoddolwyr](#), er yr argymhellir polisïau yn benodol ar gyfer interniaid.

### **Lleoliad Gwaith Cymunedol**

Yn rhan o'r system budd-daliadau lles, mae Lleoliadau Gwaith Cymunedol (*Community Work Placements – CWP*) "wedi'u hanelu at yr hawl wyr hynny nad ydynt yn gweithio yn bennaf oherwydd diffyg profiad gwaith neu gymhelliant, ac sydd efallai wedi treulio cryn dipyn o amser i ffwrdd o amgylchedd gwaith strwythuredig. Nod CWP yw rhoi cyfnod gwerthfawr o brofiad i'r rheini sy'n chwilio am waith mewn amgylchedd seiliedig ar waith, gan eu galluogi i ddatblygu'r disgyblaethau a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth gynaliadwy, yn ogystal â'u symud i gyflogaeth."

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at hawl wyr y Lwfans Ceisio Gwaith sydd wedi cwblhau'r Rhaglen Waith ac wedi'u henwi ymysg y rheini a allai elwa o'r gweithgaredd hwn. Pan gytunir ar hyn, daw yn rhan o ymrwymiad hawlydd unigolyn ac felly mae'n weithgaredd gorfodol.

Gan eu bod yn orfodol, nid yw Lleoliadau Gwaith Cymunedol yn cyd-fynd â'r diffiniad o wirfoddoli a dderbynnir yn gyffredinol.

### **Lleoliad gwirfoddoli**

Defnyddir y term pan fo asiantaeth atgyfeirio, megis canolfan wirfoddoli neu ganolfan waith, yn cyflwyno [gwirfoddolwr](#) i [gyfle gwirfoddoli](#) mewn mudiad. Weithiau caiff lleoliadau gwirfoddoli eu monitro er dibenion monitro perfformiad.

## **Mudiad dan Arweiniad Gwirfoddolwr**

Er diben ymchwil a gynhaliwyd yn 2008, dyma oedd diffiniad y Sefydliad Ymchwil Gwirfoddoli o fudiadau dan arweiniad gwirfoddolwr:

‘Grŵp cymunedol yw grŵp neu fudiad dan arweiniad gwirfoddolwr lle mae ‘arweinydd’ y grŵp yn wirfoddolwr sy’n dal un o’r ‘swyddi a etholir neu a benodir yn ffurfiol’. Fel arfer, y cadeirydd yw hwn, ond nid bob amser. Nhw sy’n cyfateb yn ymarferol i’r prif swyddog gweithredol mewn mudiad cyflogedig. Nid yw hyn yn cynnwys [ymddiriedolwyr](#) mewn mudiadau sydd â staff cyflogedig.’

Mewn rhai achosion mae mudiadau dan arweiniad gwirfoddolwr yn cyflogi staff cyflogedig, er enghraifft, mewn swyddi gweinyddol. Mae’r mudiad yn dal i gael ei arwain yn weithredol gan wirfoddolwr.

## **Mudiad gwirfoddol**

Yn wreiddiol defnyddid y term i olygu mudiad a sefydlwyd yn annibynnol oddi wrth y wladwriaeth, i wasanaethu budd cyhoeddus. Y dyddiau hyn rydym at ei gilydd yn osgoi’r term gan ffafrio ‘[Trydydd Sector](#)’ yng Nghymru.

## **Mudiad sy’n Cynnwys Gwirfoddolwyr**

Unrhyw fudiad sy’n cynnwys gwirfoddolwyr yn ei waith rheoli a/neu ei waith bob dydd. Os mai’r unig wirfoddolwyr mewn mudiad yw ymddiriedolwyr elusen yna (onid ydynt yn gwirfoddoli i’r mudiad mewn rhinweddau ychwanegol) ni ellid disgrifio’r mudiad yn fudiad sy’n cynnwys gwirfoddolwyr.

## **Profiad gwaith**

Mae profiad gwaith yn gyfle i unigolyn ddysgu mewn amgylchedd gwaith; gall hyn fod drwy gysgodi staff neu roi cynnig ar dasgau amrywiol. Mae’n aml yn elfen orfodol o gwrs addysg.

Efallai bydd myfyrwyr ysgol yn gwneud wythnos neu ddwy o brofiad gwaith; efallai y bydd myfyrwyr addysg drydyddol yn gwneud cyfnod hwy (gellid hefyd ei alw **lleoliad gwaith**, **lleoliad myfyriwr**, neu **brofiad ymarferol**). Rhaid i fyfyrwyr cyrsiau cwnsela, er enghraifft, gyflawni nifer penodol o oriau o brofiad cwnsela ymarferol, ochr yn ochr â’u hastudiaethau academaidd.

Yn hanfodol dylai unrhyw leoliad ddarparu amgylchedd dysgu â chefnogaeth.

Nid oes gan fyfyrwyr sy’n gwneud profiad gwaith fel rhan o gwrs addysg uwch neu bellach yr hawl i gael yr isafswm cyflog cenedlaethol os yw’r profiad gwaith yn llai na blwyddyn o hyd.

Yn gyffredinol ni ystyrir profiad gwaith yn wirfoddoli, ond weithiau gall arwain at wirfoddoli, pan fo unigolion yn dewis cyflawni gweithgaredd sydd y tu hwnt i ofynion eu cwrs/sefydliad addysg.

## Profiad gwirfoddol

Term cyffredinol, sydd fel arfer yn rhoi pwyslais ar y sgiliau, y datblygiad personol a'r manteision personol eraill a geir wrth wirfoddoli. Mae'n ffordd o gyfoethogi CV, neu gael manteision personol a fydd o fudd i yrfa rhywun.

## Swydd-ddeiliad Di-dâl

Dyma ddisgrifiad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi o swydd-ddeiliaid

- swyddogion a etholir o dan gyfansoddiad cyrff megis clybiau chwaraeon a chlybiau cymdeithasol
- pobl sy'n gwneud gwaith di-dâl mewn mudiadau masnachol arferol, neu mewn meysydd megis y gwasanaeth iechyd, cyrff llywodraethu Colegau Addysg Bellach, neu'r llysoedd.

Nid yw'r cyfryw swydd-ddeiliaid yn cael cydnabyddiaeth ariannol am eu gwasanaethau, ond gallent gael taliadau teithio a chynhaliadau. Mewn rhai achosion gallent fod yn gymwys am lwfans colled ariannol (i gymryd lle enillion a fyddai fel arall wedi'u hennill). Caiff aelodau o gyrff cyhoeddus, ynadon ac aelodau o reithgorau eu talu am golled enillion, er enghraifft.

Ystyrir Swydd-ddeiliad Di-dâl at ei gilydd yn wirfoddolwyr, ac maent yn cynnwys swydd-ddeiliaid ar gyrff llywodraethu a Chyrff Ymddiriedolwyr.

## Trydydd Sector

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term fel disgrifiad cynhwysol ac eang iawn o ystod o fudiadau sy'n rhannu cyfres o werthoedd a nodweddion. Mae mudiadau Trydydd Sector:

- Yn gyrff annibynnol, anlywodraethol
- Wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n dewis trefnu eu hunain (h.y. a lywodraethir gan Fwrdd [Ymddiriedolwyr](#) gwirfoddol)
- yn cael eu 'gyrru gan werth' a'u cymell gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na gwneud elw'n unig
- er budd pobl a chymunedau yng Nghymru

## Ymddiriedolwr

Mae ymddiriedolwyr yn [wirfoddolwyr](#). Mae ganddynt reolaeth gyffredinol dros fudiad gwirfoddol ac yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn gwneud yr hyn y cafodd ei sefydlu i'w wneud. Gelwir ymddiriedolwyr yn enwau eraill hefyd gan gynnwys aelodau Bwrdd, Llywodraethwyr, aelodau Pwyllgor. Os yw'r mudiad maent yn ei redeg yn gwmni, mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn Gyfarwyddwyr ar y cwmni.

Pa deitl bynnag a roddir iddynt, ymddiriedolwyr yw'r bobl sy'n arwain y mudiad ac yn penderfynu'r ffordd o'i redeg.

## **Gwybodaeth Bellach:**

Arweiniad gan ACAS a chan CIPD ar gyfer cyflogwyr, ar Interniaethau

[www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=4701&q=internship](http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=4701&q=internship)

[www.cipd.co.uk/binaries/internships-that-work\\_2013.pdf](http://www.cipd.co.uk/binaries/internships-that-work_2013.pdf)

[Arweiniad NCVO ar interniaethau](#)

Ar y gwahaniaeth rhwng gwirfoddolwyr a gweithwyr gwirfoddol

[www.business-scene.com/resources/national-minimum-wage-volunteers-voluntary-workers](http://www.business-scene.com/resources/national-minimum-wage-volunteers-voluntary-workers)

Arweiniad ar Leoliadau Gwaith Cymunedol yr Adran Gwaith a Phensiynau

[www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/314475/commu-nity-work-placements-provider-guidance.pdf](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/314475/commu-nity-work-placements-provider-guidance.pdf)

Ockenden a Stuart (2014) [Review of evidence on the outcomes of youth volunteering, social action and leadership](#). Sefydliad Ymchwil Gwirfoddoli. NCVO

Bancio amser:

[www.timebankingwales.org.uk/](http://www.timebankingwales.org.uk/)

Ar ymddiriedolwyr:

[www.gov.uk/charity-trustee-whats-involved](http://www.gov.uk/charity-trustee-whats-involved)

Ar Swydd-ddeiliaid di-dâl

[www.hmrc.gov.uk/manuals/eimmanual/eim71100.htm](http://www.hmrc.gov.uk/manuals/eimmanual/eim71100.htm)

ac ar waith di-dâl

Rochester, Colin (2006), [Making sense of Volunteering](#) – Adolygiad llenyddiaeth. Volunteering England.

Gwirfoddoli tra'n cael buddaliadau. Canolfan Byd Gwaith (2010) Adran Gwaith a Phensiynau:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/264510/dwp1023w.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/264510/dwp1023w.pdf)

[Volunteering to lead. A study of leadership within small volunteer-led groups](#). Ymchwil gan y Sefydliad Ymchwil Gwirfoddoli (2008)

[Volunteers and the Law](#). Mark Restall (2005). Volunteering England

Mae'n cynnwys adran ddefnyddiol ar y gwahaniaeth rhwng 'gweithiwr' a 'chyflogai'

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Cyngor Trydydd Sector Caerdydd**

*Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH*

**Elusen Gofrestredig:** 1068623

**Ffôn:** 029 2048 5722

[enquiries@c3sc.org.uk](mailto:enquiries@c3sc.org.uk)

**Ffacs:** 029 2046 4196

[www.c3sc.org.uk](http://www.c3sc.org.uk)

Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

**Wedi ei ddiweddarau:** 26/09/2016

The logo for WcVA CgGC is displayed on a red rectangular background. The text 'WcVA' is in a white, bold, sans-serif font, with a thin white horizontal line underneath it. Below the line, the text 'CgGC' is also in a white, bold, sans-serif font.

Ffôn: 0300 111 0124  
[www.wcva.cymru](http://www.wcva.cymru)